Gwasanaeth Ystadegol
y Llywodraeth

# Prosesau Cysoni Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth: Asesu Anghenion Defnyddwyr am Opsiynau Ymateb Ychwanegol ar gyfer y Safon wedi'i Chysoni newydd ar gyfer Ethnigrwydd

## Dogfen ymgynghori

Hydref 2025

# Cynnwys

**Hanes y fersiwn** 5
Fersiwn 1 5
Fersiwn 1.1 5
**Crynodeb gweithredol** 7
Sut i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad 10
**Cefndir** 11
Y Safon wedi'i Chysoni ar gyfer Ethnigrwydd 14
Diben yr ymgynghoriad hwn 20
**Meini prawf gwerthuso ar gyfer blychau ticio ethnigrwydd** 23
Meini prawf gwerthuso 24
Ffynonellau tystiolaeth 26
**Y camau nesaf** 29
Cyfrinachedd a diogelu data 32
**ATODIAD A: Cwestiynau'r Ymgynghoriad** 33
Amdanoch chi 34
Eich anghenion am ddata ar grŵp ethnig 38
Sut i gyflwyno eich ymateb 58
**ATODIAD B: Polisi cymedroli** 59
**ATODIAD C: Ôlnodiadau** 61



# Hanes y fersiwn

## Fersiwn 1

**Dyddiad cyhoeddi:** 28 Hydref 2025

## Fersiwn 1.1

**Dyddiad cyhoeddi:** 05 Rhagfyr 2025

**Nodiadau:** Nodwyd hepgoriad ar dudalen 16 a oedd yn awgrymu bod yr opsiynau ymateb i'r cwestiwn ethnigrwydd ar gyfer ymatebwyr yng Nghymru yr un peth â'r rhai ar gyfer ymatebwyr yn Lloegr yn holiadur Cyfrifiad 2021, gan nodi dim ond y gwahaniaeth yn nhrefn yr opsiynau ymateb o dan y categori lefel uchel 'Gwyn'.

Dylai'r ddogfen fod wedi nodi hefyd:

Roedd yr opsiwn ymateb lefel uchel "Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig" ar gyfer ymatebwyr yn Lloegr yn wahanol i'r opsiwn ar gyfer ymatebwyr yng Nghymru, sef "Asiaidd, Asiaidd Cymreig neu Asiaidd Prydeinig".

Roedd yr opsiwn ymateb lefel uchel "Du, Du Prydeinig, Caribïaidd neu Affricanaidd" ar gyfer ymatebwyr yn Lloegr yn wahanol i'r opsiwn ar gyfer ymatebwyr yng Nghymru, sef "Du, Du Cymreig, Du Prydeinig, Caribïaidd neu Affricanaidd".

Mae'r ddogfen hon wedi cael ei diweddaru i adlewyrchu'r gwahaniaethau yn yr opsiynau ymateb i'r cwestiwn ethnigrwydd yng Nghymru ac yn Lloegr yng Nghyfrifiad 2021. Mae'r ddogfen

bellach yn cynnwys testun yr opsiynau ymateb a ddefnyddiwyd yn Lloegr, a’r testun a ddefnyddiwyd yng Nghymru, mewn dwy restr ar wahân. Nid yw’r newid yn effeithio ar y cwestiynau sy’n cael eu gofyn yn yr ymgynghoriad hwn.

# Crynodeb gweithredol

Diben yr ymgynghoriad hwn yw casglu barn am opsiynau ymateb blwch ticio ychwanegol a all fod yn ofynnol ar gyfer safon wedi'i chysoni newydd ar gyfer casglu data ar ethnigrwydd. Mae safonau wedi'u cysoni yn cynnwys diffiniadau, cwestiynau arolwg, dulliau cyflwyno a awgrymir a gwybodaeth i ddefnyddwyr data. Caiff cynhyrchwyr ystadegau eu hannog gan y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau[1] (Saesneg yn unig) i ddefnyddio safonau wedi'u cysoni i gydlynu eu dulliau casglu data ag eraill, gan y bydd hyn yn golygu bod eu hystadegau yn fwy defnyddiol, ond ni chaiff hyn ei fandadu. Gall eraill hefyd ddewis defnyddio'r safonau hyn lle maent yn helpu gyda chysondeb, cymharedd a chydlyniaeth data ac ystadegau.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn rhan o adolygiad parhaus tîm Cysoni Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth o'r safon hon a chaiff ei gynnal ochr yn ochr ag ymgynghoriad ehangach y SYG ar bynciau ar gyfer Cyfrifiad 2031 yng Nghymru a Lloegr, sy'n holi am anghenion defnyddwyr am ddata ar grŵp ethnig ynghyd â nifer o bynciau eraill. Caiff y rhai sy'n defnyddio data ar grŵp ethnig yng Nghymru a Lloegr eu hannog i gwblhau'r ddau ymgynghoriad gan y bydd y ddau yn llywio'r ffordd y caiff data ar grŵp ethnig eu casglu yng Nghyfrifiad 2031 yng Nghymru a Lloegr. Ceir rhagor o wybodaeth am Ymgynghoriad ar Bynciau Cyfrifiad 2031 ar dudalen yr Ymgynghoriad ar Bynciau[2], a fydd yn cau ar 4 Chwefror 2026.

Argymhellir bod casglwyr data o bob rhan o Wasanaeth Ystadegol y Llywodraeth yn defnyddio'r safon wedi'i chysoni newydd ar gyfer ethnigrwydd, gan gynnwys timau sy'n gweithio ar y cyfrifiadau nesaf yn y Deyrnas Unedig.Disgwyliwn i sefydliadau ystadegau y Deyrnas Unedig ystyried y safon hon wrth ddatblygu eu cwestiynau. Disgwyliwn i'r cwestiwn perthnasol yn y cyfrifiad gyd-fynd â'r safon hon yng Nghymru a Lloegr. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda thimau ledled y Deyrnas Unedig er mwyn deall eu gofynion ar gyfer y safon. Yn dibynnu ar anghenion defnyddwyr ym mhob un o wledydd y Deyrnas Unedig, gellir cyflawni hyn drwy un fersiwn neu gyfres o gwestiynau wedi'u cysoni.

Mae tîm Cysoni Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth[3] (Saesneg yn unig) wedi'i leoli yn y Swyddfa Ystadegau Gwladol (y SYG). Mae'r tîm:

- yn gyfrifol am greu a sefydlu "safonau wedi'u cysoni" Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar gyfer pob pwnc
- yn cefnogi'r gwaith o gysoni dulliau casglu data ledled y Deyrnas Unedig

Ym mis Mehefin 2025, cyhoeddodd y tîm drosolwg o'i waith adolygu ac ailddylunio hyd yn hyn[4] (Saesneg yn unig), a nododd y bwriad i lansio ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod hydref 2025.

Yr ymgynghoriad hwn yw'r cam diweddaraf mewn gwaith ymgysylltu parhaus â chynhyrchwyr ystadegol, defnyddwyr data, grwpiau cymunedol a rhanddeiliaid eraill.

O ystyried arwyddocâd yr adolygiad hwn, y flaenoriaeth yw sicrhau y caiff ystod lawn o anghenion defnyddwyr ei hadlewyrchu yn yr opsiynau ymateb diwygiedig. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod y broses o ddatblygu safon wedi'i chysoni newydd yn gadarn, yn gynhwysol, yn cael ei harwain gan dystiolaeth ac yn addas i'w defnyddio ar draws ystod eang o leoliadau casglu data. Disgwylir i'r safon ddiwygiedig gynrychioli newid sylweddol yn y ffordd y gall data ar ethnigrwydd gael eu casglu ledled y Deyrnas Unedig, gyda chanlyniadau ar gyfer cymharedd data, cyflawni gweithredol ac ymgysylltu â defnyddwyr.

Mae gwaith ymchwil helaeth wedi cael ei wneud ers 2022, gan gynnwys arolygon, cyfweliadau a gweithgarwch ymgysylltu cymunedol yn y pedair gwlad, er mwyn llywio'r broses o ddatblygu fformat cwestiwn mwy cynhwysol a hyblyg. Nod y fformat newydd yw adlewyrchu'r ffordd y mae unigolion yn disgrifio eu hunain, gan leihau dibyniaeth ar y categori "Arall". Diben yr ymgynghoriad hwn yw llywio camau i ychwanegu opsiynau ymateb newydd o fewn fformat diwygiedig y cwestiwn.

Caiff tystiolaeth a gesglir drwy ymatebion i'r ymgynghoriad hwn ei gwerthuso yn erbyn y meini prawf a amlinellir yn adran meini prawf gwerthuso y ddogfen hon. Bydd y gwerthusiad hefyd yn seiliedig ar dystiolaeth a gasglwyd o ymchwil a wnaed gan y tîm cysoni, fel grwpiau ffocws, cyfweliadau manwl, profi cwestiynau ac ymchwil drwy arolygon.

# Sut i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad

**Fe'ch gwahoddir i ymateb i'r ymgynghoriad drwy gwblhau'r holiadur erbyn y dyddiad cau, sef 4 Chwefror 2026.**

Rydym yn eich annog yn gryf i gwblhau holiadur yr ymgynghoriad ar lein[5]. Gallwch hefyd lawrlwytho'r holiadur ac ymateb drwy e-bost neu drwy'r post.

Os ydych chi'n ymateb ar ran sefydliad, sicrhewch fod eich ymatebion drwy'r ffurflen yn adlewyrchu anghenion a safbwyntiau eich sefydliad cyfan, yn hytrach na barn bersonol.

Gellir anfon ymatebion ac ymholiadau i **harmonisation@statistics.gov.uk**, neu drwy'r post i:

**ONS Consultations Team**
Post Room
Office for National Statistics
Segensworth Road
Fareham PO15 5RR

Gallwch chi hefyd ffonio gwasanaethau cwsmeriaid y SYG ar **01329 444 972**.



# Cefndir

Mae Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth wrthi'n gweithio i adolygu a diweddaru'r safon wedi'i chysoni ar gyfer ethnigrwydd. Nod y gwaith hwn yw gwneud y safon yn fwy cynhwysol. Mae hyn yn rhannol mewn ymateb i argymhellion y Tasglu Data Cynhwysol[6] (Saesneg yn unig) i wella dull y Deyrnas Unedig o gasglu data ar gydraddoldeb, eu dadansoddi ac adrodd arnynt mewn ystod eang o feysydd a sicrhau bod cysyniadau yn cael eu mesur yn glir ac yn briodol. Mae hefyd yn cyd-fynd â'r argymhelliad y dylai pobl allu adnabod eu hunain a'u hamgylchiadau yn adnoddau a phrosesau casglu data'r Deyrnas Unedig. Mae normau cymdeithasol ac anghenion ymatebwyr a defnyddwyr yn newid dros amser ac mae'n bwysig bod y system ystadegol, yn ei thro, yn ymateb i anghenion poblogaeth amrywiol y Deyrnas Unedig.

Mae Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth wedi cyhoeddi safon wedi'i chysoni ar gyfer ethnigrwydd[7] (Saesneg yn unig) yn flaenorol yn seiliedig ar y cwestiynau a ddefnyddiwyd yng nghyfrifiadau'r Deyrnas Unedig yn 2011. Er i'r cwestiynau gael eu hadolygu a'u haddasu fel rhan o'r gwaith paratoi ar gyfer cyfrifiadau'r Deyrnas Unedig yn 2021 a 2022, mae'r tîm yn ymwybodol y gall anghenion defnyddwyr fod wedi newid ers hynny. Ym mis Mawrth 2022, dechreuodd Tîm Cysoni Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth adolygiad llawn o'r safon wedi'i chysoni bresennol ar gyfer ethnigrwydd a'r ffordd y caiff ei defnyddio gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig. Mae hyn yn cynnwys ystod eang o arolygon ac adnoddau casglu data ac yn caniatáu i amrywiaeth o anghenion defnyddwyr ledled y Deyrnas Unedig gael eu hystyried.

Mae'r safon wedi'i chysoni ar gyfer ethnigrwydd wedi'i dylunio i gasglu gwybodaeth sylfaenol am grŵp ethnig i'w defnyddio yn y rhan fwyaf o arolygon, ac mae'n cynnwys fformatau cwestiwn amgen yn dibynnu ar b'un a yw data'n cael eu casglu yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon neu'r Alban.

Ni fwriedir i'r rhain ddisodli cwestiynau a ddefnyddir mewn arolygon arbenigol lle mae angen dadansoddiad manylach, ac nid ydynt yn ceisio diffinio ethnigrwydd, gan barchu ei natur hunanddiffiniedig a phersonol.

Mae cam presennol y gwaith i adolygu'r safon hon yn cynnwys ystyried yr opsiynau ymateb sydd ar gael ac, yn bwysig, y rhai nad ydynt ar gael, yn y cwestiynau ethnigrwydd presennol. Mae hyn yn cynnwys ceisio mewnbwn gan gymunedau ac ymatebwyr a chydbwyso hyn ag anghenion defnyddwyr data er mwyn llywio'r opsiynau ymateb sydd ar gael. Fodd bynnag, dim ond un elfen o raglen waith fwy yw hon sydd wedi bod yn mynd rhagddi ers 2022. Mae'r prosiect cyfan hefyd yn ystyried dyluniad a strwythur cwestiynau, canllawiau, allbynnau dadansoddol, y baich ar ymatebwyr, ac anghenion defnyddwyr data. Mae hyn yn cynnwys anghenion i allu cymharu data a chyflawniad gweithredol cwestiynau.

Ym mis Mehefin 2025, cyhoeddodd y tîm drosolwg o'i waith adolygu ac ailddylunio hyd yn hyn[4], gan rannu'r fformat a ddaeth i'r amlwg ar gyfer cwestiwn wedi'i ailddylunio am ethnigrwydd, a lywiwyd gan waith ymchwil a phrofi helaeth. Mae hyn yn cynnwys camau tebygol i fabwysiadu'r gallu i ddewis sawl opsiwn, opsiynau wedi'u hehangu ar gyfer Grwpiau ethnig cymysg, ac ychwanegu opsiynau ymateb newydd er mwyn dibynnu llai ar y categori 'Arall'. Hefyd, ymrwymodd y tîm y byddai'r safon newydd yn cynnal cymharedd â chategorïau lefel uchel blaenorol y cyfrifiad, gan gydnabod angen sylweddol defnyddwyr am allbynnau y gellir eu cymharu dros amser.

Ystyr cysoni yw cydlynu ag eraill, nid bod yn union yr un peth â nhw o reidrwydd. Fel y cyfryw, gellir teilwra safonau wedi'u cysoni ar gyfer sefyllfaoedd penodol, gan gynnwys lle mae gwahaniaethau angenrheidiol mewn prosesau casglu data, deddfwriaeth gwledydd y Deyrnas Unedig ac anghenion defnyddwyr lleol. Mae safonau wedi'u cysoni yn cynnwys diffiniadau, cwestiynau arolwg, dulliau cyflwyno a awgrymir a gwybodaeth i ddefnyddwyr data. Lle nad oes modd casglu data mewn ffordd safonedig, gall cysoni hefyd gynnwys camau gweithredu fel cysoni categorïau allbynnau. Bydd cynhyrchwyr ystadegau yn gallu defnyddio'r safon wedi'i chysoni newydd i gyd-fynd â rhai eraill a fydd yn gwneud eu hystadegau yn fwy defnyddiol oherwydd bydd modd eu cymharu.

## Y Safon wedi'i Chysoni ar gyfer Ethnigrwydd

Mae'r safon wedi'i chysoni bresennol ar gyfer ethnigrwydd yn seiliedig ar gwestiynau Cyfrifiad 2011 ledled y Deyrnas Unedig. Cafodd y cwestiynau eu hadolygu a'u haddasu fel y gellid eu defnyddio yng Nghyfrifiad 2021 ar gyfer Cymru a Lloegr, Cyfrifiad 2021 yng Ngogledd Iwerddon a Chyfrifiad 2022 yn yr Alban. Yn 2021, argymhellodd adroddiad y Tasglu Data Cynhwysol annibynnol[8] (Saesneg yn unig) y byddai angen adolygu'r safon wedi'i chysoni bresennol ar gyfer ethnigrwydd.

Ddechrau 2022, dechreuwyd adolygiad llawn o’r safon wedi’i chysoni ar gyfer ethnigrwydd.

Wrth i’r adolygiad fynd rhagddo, mae’r tîm Cysoni yn cynghori ar gyfer prosesau casglu data newydd lle mae angen cwestiwn ar ethnigrwydd, y dylid defnyddio cwestiynau o’r canlynol:

- Cyfrifiad 2021 ar gyfer Cymru a Lloegr (Mae’r cwestiynau’n wahanol yn Lloegr a Chymru)
- y safon wedi’i chysoni bresennol ar gyfer ethnigrwydd yng Ngogledd Iwerddon
- Cyfrifiad 2022 ar gyfer yr Alban

Mae’r cwestiwn a ddefnyddiwyd yng Nghyfrifiad 2021 ar gyfer Gogledd Iwerddon hefyd wedi’i archwilio er mwyn deall anghenion defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon yn llawn.

Caiff y safon wedi’i chysoni ar gyfer Ethnigrwydd ei hargymell i gasglwyr data ynghyd â chwestiynau am hunaniaeth genedlaethol a chrefydd. Pan gaiff y tri chwestiwn eu defnyddio gyda’i gilydd, gall ymatebwyr roi manylion am eu hunaniaeth ddiwylliannol lawn yn well. Yng Ngogledd Iwerddon, yr argymhelliad[9] yw cynnwys pum cwestiwn: Gwlad Enedigol, Hunaniaeth Genedlaethol, Grŵp Ethnig, Crefydd ac Iaith, gan ddefnyddio’r cwestiynau o Gyfrifiad 2021 yng Ngogledd Iwerddon ar gyfer Gwlad Enedigol ac Iaith.

## Opsiynau ymateb yng Nghyfrifiad 2021 yng Nghymru a Lloegr

Ar gyfer ymatebwyr yn Lloegr:

### Gwyn

- Seisnig, Cymreig, Albanaidd, Gogledd Iwerddon neu Brydeinig
- Gwyddelig
- Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig
- Roma
- Unrhyw gefndir Gwyn arall (nodwch)

### Grwpiau Cymysg neu Amlethnig

- Gwyn a Du Caribïaidd
- Gwyn a Du Affricanaidd
- Gwyn ac Asiaidd
- Unrhyw gefndir Cymysg neu Amlethnig arall (nodwch)

### Asiaidd, neu Asiaidd Prydeinig

- Indiaidd
- Pacistanaidd
- Bangladeshaidd
- Tsieineaidd
- Unrhyw gefndir Asiaidd arall (nodwch)

### Du, Du Prydeinig, Caribïaidd neu Affricanaidd

- Caribïaidd
- Affricanaidd (nodwch)
- Unrhyw gefndir Du, Du Prydeinig neu Garibïaidd arall (nodwch)

### Grŵp ethnig arall

- Arabaidd
- Unrhyw grŵp ethnig arall (nodwch)

## Opsiynau ymateb yng Nghyfrifiad 2021 yng Nghymru a Lloegr

Ar gyfer ymatebwyr yng Nghymru:

### Gwyn

- Cymreig, Seisnig, Albanaidd, Gwyddelig Gogledd Iwerddon neu Brydeinig
- Gwyddelig
- Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig
- Roma
- Unrhyw gefndir Gwyn arall (nodwch)

### Grwpiau Cymysg neu Amlethnig

- Gwyn a Du Caribïaidd
- Gwyn a Du Affricanaidd
- Gwyn ac Asiaidd
- Unrhyw gefndir Cymysg neu Amlethnig arall (nodwch)

### Asiaidd, Asiaidd Cymreig neu Asiaidd Prydeinig

- Indiaidd
- Pacistanaidd
- Bangladeshaidd
- Tsieineaidd
- Unrhyw gefndir Asiaidd arall (nodwch)

### Du, Du Cymreig, Du Prydeinig, Caribïaidd neu Affricanaidd

- Caribïaidd
- Affricanaidd (nodwch)
- Unrhyw gefndir Du, Du Prydeinig neu Garibïaidd arall (nodwch)

### Grŵp ethnig arall

- Arabaidd
- Unrhyw grŵp ethnig arall (nodwch)

## Opsiynau ymateb yng Nghyfrifiad 2021 yng Ngogledd Iwerddon

- Gwyn
- Teithiwr Gwyddelig
- Indiaidd
- Du Affricanaidd
- Tsieineaidd
- Roma
- Ffilipinaidd
- Du Arall
- Grŵp ethnig cymysg (nodwch)

- Unrhyw grŵp ethnig arall (nodwch)

## Opsiynau ymateb yng Nghyfrifiad 2022 yn yr Alban

### Gwyn

- Albanaidd
- Prydeinig Arall
- Gwyddelig
- Pwylaidd
- Sipsi neu Deithiwr
- Roma
- Dyn Sioe neu Fenyw Sioe
- Grŵp ethnig gwyn arall (nodwch)

### Grwpiau Cymysg neu Amlethnig (nodwch)

### Asiaidd, Asiaidd Albanaidd, neu Asiaidd Prydeinig

- Pacistanaidd, Pacistanaidd Albanaidd, neu Bacistanaidd Prydeinig
- Indiaidd, Indiaidd Albanaidd, neu Indiaidd Prydeinig
- Bangladeshaidd, Bangladeshaidd Albanaidd, neu Fangladeshaidd Prydeinig
- Tsieineaidd, Tsieineaidd Albanaidd, neu Tsieineaidd Prydeinig
- Arall (nodwch)

### Affricanaidd, Affricanaidd Albanaidd neu Affricanaidd Prydeinig (nodwch)

### Caribïaidd neu Ddu (nodwch)

### Grŵp ethnig arall

- Arabaidd, Arabaidd Albanaidd, neu Arabaidd Prydeinig
- Arall (nodwch)



## Diben yr ymgynghoriad hwn

Bydd ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn darparu tystiolaeth o anghenion defnyddwyr, gan gynnwys anghenion cymunedau ac ymatebwyr, am flychau ticio ychwanegol o fewn y safon wedi'i chysoni newydd ar gyfer ethnigrwydd. Rydym yn ymrwymedig i gynnal cymharedd â chategorïau lefel uchel y cyfrifiad a ddefnyddir ledled y Deyrnas Unedig.

Ar hyn o bryd, gall unigolion na allant ddisgrifio eu hunain drwy ddewis blwch ticio ar gyfer grŵp ethnig penodol, ysgrifennu eu grŵp ethnig mewn opsiwn ymateb blwch testun 'Arall'. Mae tîm Cysoni Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth yn ceisio tystiolaeth a fydd yn llywio penderfyniadau o ran a oes angen opsiynau ymateb ychwanegol ai peidio, gan gydnabod bod angen cydbwyso camau i ychwanegu opsiynau ymateb newydd ag effeithiau

ar y baich ar ymatebwyr ac ansawdd data. Ystyr baich ar ymatebwyr yw pa mor anodd yw hi i ymatebwyr gwblhau'r holiadur, faint o amser y mae'n ei gymryd iddynt ac a yw'n achosi unrhyw straen iddynt, a gall effeithio ar ansawdd y data.

Nid yw'n bosibl dylunio cwestiwn casglu data sydd â blychau ticio ar wahân ar gyfer pob hunaniaeth ethnig bosibl y gall unigolyn ei nodi, oherwydd bod yn rhaid i'r dyluniad terfynol gydbwyso angen defnyddwyr ac ehangder ag ymarferoldeb.

Mae hyn yn cynnwys ystyried canlyniadau newid i hyd ffurflenni casglu data, dyluniad systemau data presennol a rhai yn yr arfaeth, ac ar gyfer cymariaethau ystadegol dros gylch oes arolwg neu broses casglu data weinyddol.

Argymhellir bod casglwyr data o bob rhan o Wasanaeth Ystadegol y Llywodraeth yn defnyddio'r safon wedi'i chysoni newydd ar gyfer ethnigrwydd, gan gynnwys timau sy'n gweithio ar y cyfrifiadau nesaf yn y Deyrnas Unedig. Disgwyliwn i sefydliadau ystadegau y Deyrnas Unedig ystyried y safon hon wrth ddatblygu eu cwestiynau. Disgwyliwn i'r cwestiwn perthnasol yn y cyfrifiad gyd-fynd â'r safon hon yng Nghymru a Lloegr. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda thimau ledled y Deyrnas Unedig er mwyn deall eu gofynion ar gyfer y safon. Yn dibynnu ar anghenion defnyddwyr ym mhob un o wledydd y Deyrnas Unedig, gellir cyflawni hyn drwy un fersiwn neu gyfres o gwestiynau wedi'u cysoni.

Caiff tystiolaeth o angen defnyddwyr am opsiynau ymateb ychwanegol ei hystyried ochr yn ochr â chanfyddiadau adolygiad o ymatebion ysgrifenedig a gynhaliwyd gan y tîm Cysoni.

Ystyriodd yr adolygiad ymatebion ysgrifenedig i'r categori grŵp ethnig 'Arall' a gododd yn aml ar draws ystod o arolygon yn y Deyrnas Unedig,[10] (Saesneg yn unig) gan gynnwys y cyfrifiadau diweddaraf. Bydd y gwerthusiad hefyd yn seiliedig ar dystiolaeth a gasglwyd o ymchwil a wnaed, fel grwpiau ffocws, cyfweliadau manwl, profi cwestiynau ac ymchwil drwy arolygon.

Ar ôl dadansoddi a sicrhau ymatebion i'r ymgynghoriad hwn, caiff y rhestr o opsiynau ymateb ar gyfer y safon newydd ar gyfer ethnigrwydd ei chyhoeddi yn hwyrach yn 2026. Gwneir gwaith pellach i brofi cwestiynau gydag aelodau o'r cyhoedd ar ôl yr ymgynghoriad hwn er mwyn sicrhau y caiff effaith ehangach newidiadau ar gymunedau ac ar gymharedd data ei deall. Bydd hyn yn sicrhau bod y safon derfynol yn addas at y diben ar draws ystod eang o ddulliau casglu data a chyd-destunau sefydliadol.

Mae tîm Cysoni Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth yn bwriadu cyhoeddi'r safon newydd ar gyfer ethnigrwydd at ddibenion casglu data ar lein ar ddiwedd 2026. Bydd y safonau ar gyfer dulliau cwblhau eraill yn dilyn hyn.



# Meini prawf gwerthuso ar gyfer blychau ticio ethnigrwydd

Mae'r adran hon yn amlinellu'r meini prawf a gaiff eu defnyddio i asesu ymatebion i'r ymgynghoriad. Bydd y meini prawf hyn yn helpu i lywio penderfyniadau am ychwanegu blychau ticio newydd at y safon wedi'i chysoni newydd ar gyfer ethnigrwydd. Bydd y meini prawf gwerthuso yn ein helpu i flaenoriaethu camau i ychwanegu blychau ticio sy'n diwallu'r angen mwyaf ymhlith defnyddwyr, gan gydbwyso eglurder, ansawdd data a baich derbyniol ar ymatebwyr. Bydd tystiolaeth arall hefyd yn llywio'r penderfyniadau hyn, gan gynnwys data ar y defnydd o gwestiynau hunaniaeth ddiwylliannol eraill ac opsiynau ysgrifenedig, ymchwil i brofi cwestiynau, a gweithgarwch ymgysylltu ag Awdurdodau Lleol, adrannau Llywodraeth y Deyrnas Unedig, Llywodraethau Datganoledig, elusennau a grwpiau cymunedol.

Caiff yr egwyddorion sy’n sail i bob maen prawf gwerthuso eu crynhoi yma. Byddwn yn cyhoeddi manylion llawn y meini prawf gwerthuso maes o law.

## Meini prawf gwerthuso

- **Cryfder angen defnyddwyr am wybodaeth am grŵp ethnig:** Caiff tystiolaeth a gyflwynir o angen defnyddwyr am flychau ticio ychwanegol ei hystyried mewn perthynas â dwy egwyddor.
  - **Egwyddor 1:** Cryfder yr angen at ddibenion monitro cydraddoldeb a datblygu polisïau.
  - **Egwyddor 2:** Cryfder yr angen at ddibenion dyrannu adnoddau a darparu gwasanaethau.
- **Diffyg ffynonellau gwybodaeth amgen:** Asesir sut y caiff y grŵp ei adlewyrchu yn y cwestiynau ethnigrwydd ar hyn o bryd, er enghraifft a yw ymatebwyr yn defnyddio categori “Arall – nodwch” pan fo un ar gael. Ystyrir hefyd a gaiff y data eu casglu’n gyson yn rhywle arall, er enghraifft mewn safonau wedi’u cysoni eraill fel hunaniaeth genedlaethol neu grefydd.
  - **Egwyddor 1:** Ni all atebion ysgrifenedig ddarparu data cyson sy’n ddigonol ar gyfer mesur y grŵp hwn.
  - **Egwyddor 2:** Nid yw cwestiynau casglu data eraill yn ddigonol fel procsi effeithiol (er enghraifft, gwlad enedigol, crefydd, hunaniaeth genedlaethol).

- **Derbynioldeb, eglurder ac ansawdd data:** Mae angen i'r safon wedi'i chysoni derfynol fod yn addas i ymatebwyr ac wedi'i strwythuro mewn ffordd sy'n casglu'r wybodaeth fwyaf defnyddiol. Ni ddylai cynnwys opsiynau ymateb newydd ddrysu ymatebwyr yn ormodol na rhoi gormod o faich arnynt, a allai leihau ansawdd y wybodaeth a gesglir. Rhaid i'r cwestiwn hefyd ystyried yn briodol anghenion defnyddwyr o ran cymharedd data a rhoi prosesau casglu data ar waith.
  - **Egwyddor:** Mae ychwanegu'r blwch ticio neu'r derminoleg ddiwygiedig yn dderbyniol i ymatebwyr. Mae'r newid canlyniadol i'r safon casglu data yn glir o ran geiriad a chyd-destun (er enghraifft, categorïau nad ydynt yn cyd-fynd), yn bodloni cyfyngiadau ymarferol ar gyfer casglu data, ac yn darparu'r wybodaeth ofynnol i lefel dderbyniol o ansawdd.

# Ffynonellau tystiolaeth

Yn ogystal â thystiolaeth a ddarperir drwy'r ymgynghoriad cyhoeddus hwn, byddwn yn ystyried tystiolaeth a geir o'r ffynonellau canlynol:

## Cryfder angen defnyddwyr am wybodaeth am grŵp ethnig

Caiff cryfder angen defnyddwyr (ar gyfer y ddwy egwyddor) ei gasglu o drafodaethau bord gron sy'n cynnwys Awdurdodau Lleol, adrannau Llywodraeth y Deyrnas Unedig, Llywodraethau Datganoledig, elusennau a grwpiau cymunedol; ac o adolygiad cyhoeddedig[10] (Saesneg yn unig) o'r ffordd y mae ymatebwyr yn dewis disgrifio eu hunain drwy ddefnyddio opsiynau ysgrifenedig 'Arall, nodwch' mewn amrywiaeth o arolygon. Os bydd yr ymgynghoriad cyhoeddus yn nodi bod angen tystiolaeth bellach ar anghenion polisi, unwaith y bydd anghenion defnyddwyr a chymunedau wedi'u gwerthuso, gellir ystyried arolwg wedi'i dargedu.

## Diffyg ffynonellau gwybodaeth amgen

Caiff tystiolaeth feintiol ac ansoddol ei darparu o ymchwil y tîm Cysoni ar gyfer ethnigrwydd â'r cyhoedd, cyfarfodydd bord gron a llenyddiaeth sydd ar gael am grwpiau ethnig.

Mae gwybodaeth am hunaniaeth ddiwylliannol ymatebwyr ar gael drwy gwestiynau ar ethnigrwydd, hunaniaeth genedlaethol, gwlad enedigol, iaith a chrefydd. Caiff adolygiad ei gyhoeddi o sut, a pha mor rheolaidd, y caiff y cwestiynau hyn eu defnyddio ym mhrif arolygon Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth; a pha mor effeithiol y mae'r cwestiynau hyn yn darparu data procsi i fesur ethnigrwydd.

## Derbynioldeb, eglurder ac ansawdd data

Bydd argymhellion o ran ychwanegiadau i'r safon wedi'i chysoni ar gyfer ethnigrwydd yn destun gwaith ymchwil ac ymgysylltu pellach er mwyn sicrhau bod dealltwriaeth dda o unrhyw effaith bosibl ar gymunedau a chymharedd data. Bydd y gwerthusiad yn defnyddio tystiolaeth o ymchwil profi cwestiynau'r tîm Cysoni ar gyfer ethnigrwydd ynghyd â gwybodaeth o weithgarwch ymgysylltu â rhanddeiliaid. Bydd hyn yn cefnogi asesiad yn erbyn y meini prawf gwerthuso hyn.

Dylunnir y cwestiwn ar ethnigrwydd i alluogi'r rhan fwyaf o'r boblogaeth i ddisgrifio eu hunain yn hawdd. Er bod yr adolygiad hwn yn ceisio ehangu'r rhestr o opsiynau ymateb yn unol ag anghenion presennol defnyddwyr ac ymatebwyr, ni fwriedir i ddyluniad y cwestiwn terfynol ddarparu cofnod o bob grŵp ethnig posibl.

Ni chaiff unrhyw grŵp ethnig ei eithrio o'r broses ystyried, ond rhaid cydbwyso manteision ychwanegu rhagor o flychau ticio yn erbyn yr effeithiau posibl os bydd y cwestiwn yn mynd yn rhy gymhleth a dryslyd i'w ateb. Mae'r effeithiau hyn yn cynnwys y gallu i gymharu data dros amser, cymhlethdod prosesau cyfuno data ac allbynnau, cyfyngiadau ymarferol rhoi dyluniad newydd ar waith mewn offerynnau casglu data gwahanol, a'r baich ar ymatebwyr.



# Y camau nesaf

Diolch am roi o’ch amser i ddarllen drwy’r ddogfen ymgynghori hon ar angen defnyddwyr am flychau ticio ychwanegol mewn safon wedi’i chysoni newydd ar gyfer data ar ethnigrwydd. Bydd eich ymatebion i’r ymgynghoriad hwn yn helpu i lywio’r gwaith o ddatblygu’r safon newydd hon.

Yn dilyn yr ymgynghoriad hwn, caiff yr ymatebion eu dadansoddi yn unol â’r meini prawf a ddisgrifiwyd yn yr adran Meini Prawf Gwerthuso. Caiff y gwerthusiad hwn ei lywio ymhellach gan dystiolaeth a gasglwyd o ymchwil a wnaed gan y tîm, ac rydym yn disgwyl cyhoeddi’r opsiynau ymateb ar gyfer y safon newydd yn hwyrach yn 2026. Argymhellir bod casglwyr data o bob rhan o Wasanaeth Ystadegol y Llywodraeth yn defnyddio’r safon wedi’i chysoni newydd ar gyfer ethnigrwydd, gan gynnwys timau sy’n gweithio ar y cyfrifiadau nesaf yn y Deyrnas Unedig.

Disgwyliwn i sefydliadau ystadegau y Deyrnas Unedig ystyried y safon hon wrth ddatblygu eu cwestiynau.

Disgwyliwn i'r cwestiwn perthnasol yn y cyfrifiad gyd-fynd â'r safon hon yng Nghymru a Lloegr. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda thimau ledled y Deyrnas Unedig er mwyn deall eu gofynion ar gyfer y safon. Yn dibynnu ar anghenion defnyddwyr ym mhob un o wledydd y Deyrnas Unedig, gellir cyflawni hyn drwy un fersiwn neu gyfres o gwestiynau wedi'u cysoni.

Gwneir gwaith pellach i brofi cwestiynau gydag aelodau o'r cyhoedd ar ôl yr ymgynghoriad hwn er mwyn sicrhau y caiff effaith ehangach newidiadau ar gymunedau ac ar gymharedd data ei deall.

Byddwn yn darparu diweddariad o fewn 12 wythnos i ddyddiad cau'r ymgynghoriad. Byddwn hefyd yn cyhoeddi adroddiad penodol ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn.

**Fe'ch gwahoddir i ymateb i holiadur yr ymgynghoriad cyn y dyddiad cau, sef 4 Chwefror 2026.**

Rydym yn eich annog yn gryf i gwblhau holiadur yr ymgynghoriad ar lein[2]. Gallwch hefyd lawrlwytho'r holiadur ac ymateb drwy e-bost neu drwy'r post.

Os ydych chi'n ymateb ar ran sefydliad, sicrhewch fod eich ymatebion drwy'r ffurflen yn adlewyrchu anghenion a safbwyntiau eich sefydliad cyfan, yn hytrach na barn bersonol.

Gellir anfon ymholiadau i harmonisation@statistics.gov.uk, neu drwy'r post i:

**ONS Consultations Team**
Post Room
Office for National Statistics
Segensworth Road
Fareham
PO15 5RR

Gallwch chi hefyd ffonio gwasanaethau cwsmeriaid y SYG ar 01329 444 972.

Edrychwn ymlaen at glywed gennych.

## Cyfrinachedd a diogelu data

Mae angen eich enw a'ch cyfeiriad e-bost ar y Swyddfa Ystadegau Gwladol (y SYG) er mwyn derbyn eich ymateb. Efallai y byddwn yn cysylltu â chi ynglŷn â'ch ymateb i'r ymgynghoriad, gyda'ch caniatâd. Rydym yn ceisio bod mor agored â phosibl o ran ein proses gwneud penderfyniadau. Caiff yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad eu cyhoeddi. Caiff enwau sefydliadau sydd wedi ymateb eu cynnwys ynghyd â'u hymateb, a phan fydd unigolion yn rhoi caniatâd i'r SYG gyhoeddi eu henwau ar gyfer ymateb unigol, caiff yr enwau hyn eu cynnwys hefyd. Ni fyddwn yn cyhoeddi manylion cyswllt personol, fel cyfeiriadau e-bost.

I gael rhagor o wybodaeth, darllenwch ein Polisi Preifatrwydd[11] (Saesneg yn unig)
Mae'r ymgynghoriad hwn wedi cael ei gynnal yn unol ag egwyddorion ymgynghori'r llywodraeth[12] (Saesneg yn unig). Os oes gennych unrhyw gwynion am y ffordd y mae'r ymgynghoriad hwn wedi cael ei gynnal, e-bostiwch:
harmonisation@statistics.gov.uk.



**ATODIAD A:**

# Cwestiynau'r Ymgynghoriad

Bydd yr atebion y byddwch chi'n eu rhoi yn yr ymgynghoriad hwn yn helpu Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth i ddeall eich anghenion i opsiynau ymateb blwch ticio ychwanegol gael eu hystyried wrth ddatblygu safon wedi'i chysoni newydd ar gyfer casglu data ar ethnigrwydd. Mae hyn yn rhan o adolygiad parhaus tîm Cysoni Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth o'r safon bresennol ar gyfer ethnigrwydd.

Y ffordd hawsaf o ymateb i'r ymgynghoriad hwn yw drwy ein gwefan: **consultations.ons.gov.uk/harmonisation/gss-safonau-newydd-ethnigrwydd-cysoni**. Fel arall, mae gwybodaeth am sut i gyflwyno'r ffurflen hon fel ymateb ffisegol ar gael ar ddiwedd yr arolwg.

Wrth ateb y cwestiynau, dylech gynnwys disgrifiadau manwl sy'n egluro eich gofynion. Defnyddiwch enghreifftiau o'r byd go iawn sy'n dangos sut y byddech chi'n defnyddio'r data a gesglir drwy ychwanegu opsiynau ymateb newydd, a pha effaith y byddai'r gwaith hwnnw yn ei chael.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, anfonwch e-bost harmonisation@statistics.gov.uk.

# Amdanoch chi

### 1. Ydych chi'n ymateb ar ran sefydliad neu fel unigolyn?

Os ydych chi'n ymateb ar ran sefydliad, sicrhewch fod eich ymatebion drwy'r ffurflen yn adlewyrchu anghenion a safbwyntiau eich sefydliad cyfan, yn hytrach na barn bersonol.

☐ Ar ran sefydliad

☐ Fel unigolyn

Os mai'r ateb yw **'Fel unigolyn'**, ewch i gwestiwn 4. Os mai'r ateb yw **'Ar ran sefydliad'**, parhewch.

**2. Ym mha sector rydych chi'n gweithio?**

Dewiswch bob un sy'n berthnasol.

- ☐ Adran o lywodraeth y Deyrnas Unedig
- ☐ Llywodraeth ddatganoledig
- ☐ Corff cyhoeddus anadrannol neu un o asiantaethau'r llywodraeth
- ☐ Llywodraeth leol neu ranbarthol
- ☐ Gwasanaeth cyhoeddus (er enghraifft ysgol neu heddlu)
- ☐ Academia neu ymchwil
- ☐ Bwrdd y GIG neu sefydliad iechyd
- ☐ Tai
